GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Gorffennaf 2004

**Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 79**

**Gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Gorffennaf 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0657. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0656. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0655.

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-724-7

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Gorffennaf 2004
Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

Ⓗ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Gorffennaf 2004 . Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r wybodaeth hon** | **4** |
| **Ynglŷn â gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa** | **5** |
| **Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?** | **8** |
| **Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi** | **9** |
| **Gwybodaeth bellach** | **10** |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p’un a yw gosod stent yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio’n rheolaidd i drin rhwystr yn y fena cafa.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa a pha mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a’r cleifion a’r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

## Ynglŷn â gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa

Ar ôl i waed gael ei bwmpio o amgylch y corff, mae'n llifo'n ôl i'r galon drwy bibellau gwaed a elwir yn fena cafa isaf a'r fena cafa uchaf. Weithiau, gall un o'r pibellau gwaed hyn gulhau neu gael ei rhwystro, ac felly ni all gwaed lifo'n ôl i'r galon yn hawdd. Gelwir hyn yn rhwystr yn y fena cafa. Canser yw'r achos mwyaf cyffredin, yn arbennig canser yr ysgyfaint.

Mae gosod stent yn golygu pasio tiwb cul a elwir yn gathetr i fyny drwy bibell waed, gan ddechrau ar ben uchaf y goes fel rheol, a'i dywys i'r ardal gul yn y fena cafa sydd wedi'i rhwystro neu sydd wedi culhau. Bydd y meddygon yn defnyddio pelydrau X i'w helpu i sicrhau bod y cathetr yn y man cywir. Pan fydd yn y man cywir, caiff darn bach arall o diwb a elwir yn stent, sydd wedi'i gysylltu â'r cathetr, ei wthio'n araf i'r adran gul i'w hehangu. Weithiau, bydd y stent wedi'i gynllunio i ehangu unwaith y bydd yn y lle cywir, ac weithiau caiff balŵn ei chwythu'n araf i wthio'r stent ar agor.

Adwaenir y weithdrefn fel gweithdrefn sy'n ymyrryd cyn lleied â phosibl oherwydd y caiff ei chynnal drwy doriadau bach yn hytrach na thrwy agoriad mawr.

Mae'r triniaethau eraill ar gyfer rhwystr yn y fena cafa a achosir gan ganser yn cynnwys radiotherapi

(triniaeth belydr X) a chemotherapi (gan ddefnyddio meddyginiaethau gwrth-ganser).

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Edrychwyd ar ganlyniadau 23 o astudiaethau a edrychodd ar gleifion a gafodd y weithdrefn gosod stent. Yn gyffredinol, bu'r weithdrefn o gymorth i oresgyn effeithiau'r culhau neu'r rhwystr yn achos 151 o blith 159 o gleifion (sef 95%). Yn ystod y misoedd ar ôl cael y weithdrefn (hyd at 8 mis), dychwelodd y broblem gulhau neu'r rhwystr yn achos 17 o gleifion. Ond yn achos 146 o gleifion (92%), llwyddwyd i gadw'r fena cafa ar agor am gyfnod cymharol hir. Mewn cymhariaeth, goresgynnwyd effeithiau'r broblem gulhau neu'r rhwystr gan ddefnyddio cemotherapi, radiotherapi neu'r ddau yn achos 377 o blith 487 o gleifion yn yr astudiaethau yr edrychwyd arnynt (sef 77%).

Cafwyd tystiolaeth hefyd fod gan y weithdrefn stent effaith gyflymach na radiotherapi a chemotherapi. Er enghraifft, dangosodd un astudiaeth y goresgynnwyd y broblem gulhau neu'r rhwystr naill ai ar unwaith neu o fewn 48 awr mewn cleifion a gafodd y weithdrefn stent. Ond ni welwyd unrhyw effaith yn y cleifion a gafodd radiotherapi am o leiaf bythefnos.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr fod y weithdrefn stent yn gweithio'n dda iawn.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Ni phrofodd y cleifion a gafodd y weithdrefn stent yn yr astudiaethau lawer o broblemau.

Yn yr astudiaeth unigol fwyaf, rhoddwyd y stent yn y man anghywir yn achos 2 o blith 76 o gleifion (3%). Roedd angen i un claf gael triniaeth i atal y gwaed rhag torthennu (1%). Cafodd un claf boen yn y frest am gyfnod byr (1%). Ac roedd angen i un claf gael trallwysiad gwaed (1%).

Mewn astudiaeth arall, cafwyd rhwystr yn y stent yn achos 6 o blith 52 o gleifion (12%), a symudodd y stent o'r man cywir yn achos un claf (2%).

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Nid oedd gan yr arbenigwyr unrhyw bryderon mawr am ddiogelwch y weithdrefn stent. Credent mai'r prif broblemau posibl oedd niwed neu rwyg i'r fena cafa, y stent yn symud, a thorthenni.

## Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar gyfer gosod stent. Mae wedi argymell pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio i drin pobl sy'n dioddef o rwystr yn y fena cafa, dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y weithdrefn, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

## Sylwadau eraill gan NICE

Roedd y rhan fwyaf o ganlyniadau'r astudiaethau yr edrychodd NICE arnynt yn edrych ar gleifion yr oedd y canser ar eu hysgyfaint yn achosi culhau neu rwystr yn y fena cafa uchaf. Felly, rydym yn gwybod llai am ba mor dda y mae'r weithdrefn yn gweithio neu ba mor ddiogel ydyw pan gaiff ei defnyddio i drin cleifion eraill.

Yn ogystal â hyn, dywedodd NICE nad oedd llawer o dystiolaeth am y weithdrefn pan gafodd ei defnyddio i drin plant. Fel rheol, i drin plant a babanod, câi'r weithdrefn ei chynnal mewn uned sy'n arbenigo ym maes trin plant sy'n dioddef o broblemau'r galon.

## Beth y mae’r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig gosod stent i drin rhwystr yn y fena cafa i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da iddi gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau gosod stent cyn i chi gytuno i’r weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a’r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o’r manteision a’r risgiau hyn wedi’u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar osod stent i drin rhwystr yn y fena cafa ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG079guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0655. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ganser, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Gorffennaf 2004